Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

029 2085 9696

Tŷ Afon, Heol Bedwas
Bedwas, Caerffili
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Cylchlythyr | Circular

Cynlluniau Bwrsariaeth Cymhelliant ar gyfer Cyrsiau Meistr Ôl-radd a Addysgir 2021/22

Dyddiad:	05 Mai 2021
Cyfeirnod:	W21/11HE
At:	Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru Partïon eraill â buddiant
Ymateb erbyn:	Ymateb, os oes angen, erbyn **31 Mai 2021** i hestats@hefcw.ac.uk
Manylion Cyswllt:	Enw: Nicola Hunt Ffôn: 029 2085 9735 E-bost: nicola.hunt@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi manylion cynlluniau bwrsariaeth cymhelliant CCAUC ar gyfer Cyrsiau Meistr ôl-radd a addysgir (ORA) ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 a'r modd y caiff cyllid ei ddyrannu.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi manylion cynlluniau bwrsariaeth cymhelliant CCAUC ar gyfer Cyrsiau Meistr ôl-radd a addysgir ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 a'r modd y caiff cyllid ei ddyrannu.

2. Mae bwrsariaethau ar gael i fyfyrwyr cymwys[1] ar gyrsiau Meistr ôl-radd a addysgir (ORA) mewn sefydliadau addysg uwch[2] a fydd yn astudio pynciau'n gysylltiedig â gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg a meddygaeth, a adwaenir hefyd fel pynciau STEMM, ac/neu a fydd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac/neu sy'n 60 oed neu'n hŷn, yng Nghymru, ym mlwyddyn academaidd 2021/22.

Manylion cynlluniau bwrsariaeth 2021/2022

3. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y cynlluniau bwrsariaeth ar gyfer Cyrsiau Meistr ORA a gyflwynwyd ym mlwyddyn ariannol 2019/20 yn parhau ym mlwyddyn ariannol 2021/22.

4. Yn 2021/22, byddwn yn darparu cyllid i sefydliadau AU drwy ein tri chynllun bwrsariaeth presennol ar gyfer cyrsiau Meistr, i fyfyrwyr cymwys ar gyrsiau ORA: i fyfyrwyr ORA sy'n dilyn cwrs Meistr drwy gyfrwng y Gymraeg; i fyfyrwyr ORA sy'n astudio gradd Meistr mewn pwnc STEMM; a i fyfyrwyr gradd Meistr ORA sy'n 60 oed neu'n hŷn. Gall myfyriwr dderbyn pob un o'r tair bwrsariaeth.

5. Mae'r bwrsariaethau'n berthnasol i rai sy'n astudio ar sail ran-amser neu amser llawn, ac yn cael eu cynnig i fyfyrwyr, drwy sefydliadau AU, i dalu costau'n gysylltiedig â'u rhaglenni astudio. Ym mhob achos, dyrennir y bwrsariaethau ar y ddealltwriaeth y bydd ymgeiswyr unigol ar gyfer 2021/22 yn derbyn uchafswm o un fwrsariaeth o bob cynllun yn ystod eu cyfnod astudio.

Dull o ddyrannu cyllid

6. Ym mlwyddyn academaidd 2021/22 ydym yn cyflwyno un newid bach i'r dulliau dyrannu cyllid a ddefnyddiwyd ar gyfer dechreuwyr ym mlwyddyn academaidd 2020/21, ar gyfer y cynllun STEMM/cyfrwng Cymraeg a'r cynllun i fyfyrwyr 60 neu'n hŷn.

7. Byddwn yn dyrannu cyllid ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i raddau sy'n gymesur â'r niferoedd a amcangyfrifwyd ar gyfer eu cyrsiau Meistr yn 2021/22 yn y pynciau STEMM perthnasol, ar gyfer

[1] Myfyrwyr cymwys yn ôl https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/2/4/1614272768/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-ymadael-ar-ue-categoriau-cymhwystra.pdf

[2] Dim ond sefydliadau addysg uwch, fel y'u diffinnir yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch (1992), sy'n gymwys ar gyfer y cynlluniau hyn. Efallai na fydd darparwyr addysg uwch yng Nghymru sydd naill ai'n cael eu rheoleiddio neu sydd a'u cyrsiau wedi'u dynodi'n benodol ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn bodloni'r diffiniad o sefydliad addysg uwch.

rhai sy'n dilyn 40 credyd o'u cwrs neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg a myfyrwyr 60 oed a hŷn.

8. Mae amcangyfrifon o'r niferoedd a fydd yn dilyn cwrs Meistr ORA ar gyfer 2021/22 yn seiliedig ar gyfran yr ymgeiswyr ôl-radd sy'n fyfyrwyr Meistr ORA, a gymerwyd o gofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) 2019/20, a nifer yr ymgeiswyr ôl-radd ym mlwyddyn academaidd 2020/21 a gymerwyd o'r rhagolygon niferoedd myfyrwyr a gawsom gan ddarparwyr ym mis Gorffennaf 2020. Mae hyn yn wahanol i'r llynedd pan ddefnyddiwyd ymgeiswyr ORA yn hytrach na'r holl ymgeiswyr Ôl-radd wrth gyfrifo. Y rheswm dros hyn oedd nad oedd data'r rhagolygon a gasglwyd ar gyfer 2020 yn rhannu myfyrwyr ar sail cyrsiau ôl-radd a addysgir a chyrsiau ymchwil ôl-radd. Gofynnwyd hefyd i sefydliadau addasu'r amcangyfrifon yn ystod y broses ddilysu er mwyn sicrhau mai ond myfyrwyr cymwys o'r UE a oedd yn cael eu cynnwys.

9. Mae'r data a echdynnwyd i gyfrifo'r dyraniadau wedi cael eu dilysu gan sefydliadau**.** Mae dyraniadau, yn seiliedig ar y data a ddilyswyd, wedi'u cynnwys yn **Atodiad A**.

Bwrsariaethau Meistr ORA ar gyfer cyrsiau STEMM a chyfrwng Cymraeg

10. Mae'r cyllid a ddyrannwyd gennym yn seiliedig ar ddyrannu £2k fesul myfyriwr Meistr ORA STEMM cymwys ac £1k fesul myfyriwr Meistr ORA cyfrwng Cymraeg. Disgwylir y defnyddir yr un sail wrth dalu'r bwrsariaethau i fyfyrwyr cymwys.

11. Bydd cyllid yn seiliedig ar ddata ar fyfyrwyr cymwys sydd wedi'u dilysu gan bob sefydliad. Os oes diffyg, y sefydliad sydd i benderfynu sut i reoli hynny er mwyn sicrhau na chaiff myfyrwyr cymwys eu rhoi dan anfantais.

Bwrsariaethau Meistr ORA i fyfyrwyr 60 oed a hŷn

12. Mae'r cyllid a ddyrennir gennym yn seiliedig ar £4k fesul myfyriwr Meistr ORA cymwys sy'n 60 oed neu'n hŷn. Disgwylir y defnyddir yr un sail wrth dalu'r bwrsariaethau i fyfyrwyr cymwys.

13. Bydd disgwyl i sefydliadau addysg uwch ddyfarnu bwrsariaethau i bob myfyriwr cymwys sy'n ymgeisio. Os bydd nifer gwirioneddol y dechreuwyr sy'n gymwys ym mlwyddyn academaidd 2021/22 ac sy'n ymgeisio am fwrsariaeth yn uwch na'r nifer a amcangyfrifwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddyrannu cyllid, bydd disgwyl i sefydliadau barhau i ddarparu'r bwrsariaethau. Os bydd hynny'n digwydd, bydd cyllid ychwanegol yn cael ei neilltuo i sefydliadau ar gyfer y myfyrwyr ychwanegol, er mwyn sicrhau y gallant ddarparu'r holl fwrsariaethau angenrheidiol ar gyfradd o £4 fesul myfyriwr hyd ddiwedd eu cwrs. Gwneir hyn drwy gynnal ymarfer monitro ar ôl dechrau blwyddyn academaidd 2021/22, lle byddwn yn gofyn am wybodaeth os oes diffyg. Cynhelir ymarfer tebyg ym mhob blwyddyn pan ddarperir cyllid. Bydd unrhyw gyllid nad yw'n cael ei wario ar fwrsariaethau a amlinellwyd yn y cylchlythyr hwn yn cael ei adennill.

14. Yng nghylchlythyr W20/04HE gwnaethom nodi y gellid bod angen addasiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 fel bo modd prosesu'r cynllun bwrsariaeth ar gyfer myfyrwyr 60 oed a hŷn ar sail y galw. Gofynnir i sefydliadau hysbysu CCAUC os ydynt yn tybio y bydd angen cyllid ychwanegol arnynt fel bo modd recriwtio niferoedd yn ychwanegol at y niferoedd o fwrsariaethau a ddyrannwyd i fyfyrwyr 60 oed a hŷn yn 2020/21. Dylid gwneud hyn drwy anfon e-bost i hestats@hefcw.ac.uk erbyn **31 Mai 2021**. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i asesu a oes angen cyllid pellach ar gyfer y cynllun yng ngweddill blwyddyn academaidd 2020/21. Byddwn yn defnyddio data monitro diwedd blwyddyn yn sail ar gyfer unrhyw addasiadau i ddyraniadau sefydliadau unigol a gafodd eu cynnwys yng nghylchlythyr W20/04HE ac felly ni fyddwn y gwneud unrhyw addasiadau i sefydliadau unigol yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar yr wybodaeth hon yn unig.

Dyraniad sefydliadol mewnol

15. Disgwylir i sefydliadau addysg uwch barhau â'r dull dosbarthu a ddefnyddiwyd ym mlynyddoedd academaidd 2019/20 a 2020/21 i ddyfarnu bwrsariaethau i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cwrs Meistr sy'n gymwys i dderbyn bwrsariaeth yn erbyn un (neu fwy) o'r cynlluniau uchod.

16. Drwy'r cynlluniau a amlinellwyd uchod, mae'n bosibl i fyfyriwr dderbyn pob un o'r tair bwrsariaeth, hy os yw'n astudio pwnc STEMM drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn 60 oed neu'n hŷn, gallai ennill bwrsariaethau gwerth hyd at £7k. Fel y tybiwyd drwy'r dull dyrannu, byddem yn disgwyl i fyfyriwr sy'n astudio cymysgedd o bynciau STEMM a phynciau eraill dderbyn cyfran briodol o'r fwrsariaeth STEMM.

17. Mater i sefydliadau fydd asesu cymhwysedd myfyrwyr unigol. Dylai'r bwrsariaethau gael eu dyrannu i fyfyrwyr ar gyrsiau Meistr ORA sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra, ac sydd wedi ymrestru ar raglenni Meistr cymwys, mewn sefydliadau AU, fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 (SI 2019/895), fel y'u diwygiwyd, ac eithrio'r rheoliad y dylid gwneud dyfarniadau waeth beth fo'r oedran dan sylw. Wrth ddatblygu dull dosbarthu, bydd yn rhaid i sefydliadau fod yn ystyriol o unrhyw gyrsiau perthnasol y gallent fod yn eu his-gontractio (neu eu 'breinio').

18. Dylid asesu a yw'r cwrs y mae myfyriwr yn ei astudio yn gwrs STEMM ar sail categori pwnc academaidd (ASC) y cwrs. Byddai cwrs STEMM yn cael ei ystyried yn gwrs â phwnc astudio yn ASCs 1, 2, 3, 4 neu 6 (Meddygaeth a deintyddiaeth, Pynciau a phroffesiynau sy'n gysylltiedig â meddygaeth, Gwyddoniaeth, Peirianneg a thechnoleg a Gwyddorau Mathemategol, TG a chyfrifiadura). O 2019/20, defnyddir system godio'r Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch (HECoS) i rannu pynciau astudio i gategorïau, ac mae map sy'n dangos y berthynas rhwng HECoS ac ASC ar gael yn arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch (HESES) yn Atodiad E. Dylid dyrannu'r bwrsariaeth cyfrwng Cymraeg i'r rhai sy'n astudio 40 credyd neu fwy o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

19. Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl yw y bydd sefydliadau AU yn cyhoeddi gwybodaeth glir ar eu gwefannau i esbonio sut y gall darpar fyfyrwyr wneud cais am gynlluniau bwrsariaeth, ac y ceir cyfeiriadau clir at hyn. Bwriedir i'r bwrsariaethau helpu myfyrwyr cymwys gyda chostau sy'n deillio o'u cwrs astudiaeth, ac ni ddylid felly eu hysbysebu fel ffordd o osgoi talu ffioedd dysgu yn unig. Fodd bynnag, os bydd myfyriwr sy'n derbyn bwrsariaeth yn dewis ei defnyddio i'r diben hwnnw, caiff wneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y gellir dyfarnu'r bwrsariaethau cymhelliant hyn yn ychwanegol at unrhyw fwrsariaethau eraill a gynigir.

20. Bydd CCAUC yn adolygu gwefannau sefydliadau er mwyn sicrhau bod y gwybodaeth ar gael am y cynlluniau bwrsariaeth. Dylai sefydliadau addysg uwch hyrwyddo'r bwrsariaethau i annog grwpiau a dangynrychiolir i ddilyn cyrsiau Meistr ORA yng Nghymru.

21. Rydym wedi dyrannu cyllid yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd myfyrwyr amser llawn yn derbyn y cyllid dros gyfnod o flwyddyn ac y bydd myfyrwyr rhan-amser yn derbyn cyllid dros gyfnod o ddwy flynedd.

22. Fel y nodwyd yn flaenorol yn y cylchlythyr ar gyfer cynllun 2020/21, nid ydym o'r farn fod angen dyrannu unrhyw gyfran o'r cyllid hwn i dalu costau gweinyddu'r cynlluniau.

Monitro a chyllid heb ei wario

23. Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2021/22, bydd CCAUC yn gofyn am adroddiad monitro fel bod pob sefydliad AU yn cadarnhau bod yr holl gyllid wedi'i wario'n unol â'r telerau a'r amodau fu'n sail ar gyfer dyrannu'r cyllid, hy fod y bwrsariaethau wedi'u dyfarnu'n unol â'r meini prawf cymhwystra a amlinellir uchod. Gofynnir am adroddiadau tebyg mewn blynyddoedd dilynol tra bo'r cynllun yn weithredol.

24. Byddwn yn adennill cyllid os oes angen ar sail nifer gwirioneddol y cyrsiau Meistr ORA yn erbyn y rheolau cymhwystra uchod ar gyfer y cynllun. Byddwn yn cymryd y niferoedd hyn o gofnod myfyrwyr HESA, gan wirio hynny yn erbyn yr amcangyfrifon a ddilyswyd er mwyn dyrannu cyllid. Gan ddefnyddio'r dyraniad o £2k fesul myfyriwr ar gyfer pynciau STEMM, £1k ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg a £4k ar gyfer myfyrwyr 60 oed neu'n hŷn, os na fydd y sefydliad yn sicrhau'r niferoedd amcangyfrifedig a ddefnyddiwyd yn sail ar gyfer darparu'r dyraniad, byddwn yn adennill y swm hwn fesul myfyriwr, gan luosogi â'r diffyg o ran nifer.

25. Mae unrhyw ddata a ddefnyddir gennym i neilltuo cyllid wedi'u cynnwys yng nghwmpas ein harchwiliad allanol o ddata addysg uwch. Mae'r systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gasglu data hefyd wedi'u cynnwys yng nghwmpas archwiliadau mewnol sefydliadau o systemau a phrosesau data. Byddai gwiriad o resymoldeb y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu cymhwystra myfyrwyr ar gyfer bwrsariaeth wedi'i gynnwys yn hyn. Ceir rhagor o wybodaeth yng nghylchlythyr CCAUC W18/33HE Archwilio Data Addysg Uwch 2018/19 hyd 2021/22.

Amserlen

26. Mae'r dyraniadau ar gyfer pob sefydliad AU wedi'u cynnwys yn **Atodiad A**. Rydym yn bwriadu talu'r dyfarniad yn seiliedig ar niferoedd y myfyrwyr amser llawn drwy ddau daliad cyfartal, y naill ym mis Medi 2021, a'r llall ym mis Mawrth 2022. Telir y dyraniad yn gysylltiedig â niferoedd myfyrwyr rhan-amser drwy bedwar rhandaliad cyfartal: Medi 2021, Mawrth 2022, Medi 2022 a Mawrth 2023. Os bydd yn rhaid inni newid y proffil hwn, byddwn yn hysbysu'r sefydliadau ar mor fuan ag sy'n ymarferol bosibl.

Rhagor o wybodaeth

27. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Nicola Hunt (029 2085 9735; nicola.hunt@hefcw.ac.uk).

Asesu effaith ein polisïau

28. Rydym wedi cynnal asesiad effaith er mwyn helpu i amddiffyn rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb, a byddwn yn parhau i'w adolygu. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

29. Mae gan sefydliadau addysg uwch gyfrifoldeb tebyg i asesu effaith eu dull o ddyrannu'r bwrsariaethau, i amddiffyn rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb.

Dyraniadau bwrsariaeth cymhelliant ar gyfer cyrsiau meistr ôl-radd a addysgir: ymgeiswyr newydd yn 2021/22

Sefydliad	**Dyraniad wedi'i dalu yn…**												**£**
	Blwyddyn academaidd 2021/22						**Blwyddyn academaidd 2022/23**			**Cyfanswm**			
	Amser llawn			**Rhan-amser**			**Rhan-amser**						
	STEMM	**Cyfrwng Cymraeg**	**60+**	**STEMM**	**Cyfrwng Cymraeg**	**60+**	**STEMM**	**Cyfrwng Cymraeg**	**60+**	**STEMM**	**Cyfrwng Cymraeg**	**60+**	**Cyfanswm**
Prifysgol De Cymru	515,789	0	0	213,295	0	4,000	213,295	0	4,000	942,378	0	8,000	950,378
Prifysgol Aberystwyth	108,328	13,000	12,000	42,187	1,000	2,000	42,187	1,000	2,000	192,702	15,000	16,000	223,702
Prifysgol Bangor	324,482	32,000	20,000	29,189	2,500	4,000	29,189	2,500	4,000	382,861	37,000	28,000	447,861
Prifysgol Caerdydd	655,643	7,000	16,000	75,497	0	4,000	75,497	0	4,000	806,637	7,000	24,000	837,637
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	113,590	10,000	4,000	27,932	0	10,000	27,932	0	10,000	169,453	10,000	24,000	203,453
Prifysgol Abertawe	478,670	15,000	4,000	37,582	0	2,000	37,582	0	2,000	553,835	15,000	8,000	576,835
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	218,054	4,000	4,000	25,010	0	4,000	25,010	0	4,000	268,073	4,000	12,000	284,073
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	103,000	0	0	79,848	0	40,000	79,848	0	40,000	262,696	0	80,000	342,696
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	0	0	0	33,850	0	8,000	33,850	0	8,000	67,700	0	16,000	83,700
Cyfanswm	**2,517,554**	**81,000**	**60,000**	**564,390**	**3,500**	**78,000**	**564,390**	**3,500**	**78,000**	**3,646,334**	**88,000**	**216,000**	**3,950,334**

Noder: STEMM = gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg a meddygaeth